Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Addasrwydd Myfyriwr i Ymarfer: Canllawiau i Sefydliadau Addysgol Osteopathig

# Cynnwys

Cyflwyniad
Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig
Addasrwydd myfyriwr i ymarfer – crynodeb
Beth yw addasrwydd myfyriwr i ymarfer?
Dysgu ymddygiadau proffesiynol
Ffiniau
Codi pryderon
Y ddyletswydd gonestrwydd
Polisïau a gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer
Derbyniadau
Anableddau a namau iechyd
Euogfarnau a rhybuddion blaenorol
Gofal bugeiliol a chymorth i fyfyrwyr
Os na ellir dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig
Trothwy addasrwydd myfyriwr i ymarfer
Y broses ymchwilio
Rôl yr ymchwilydd
Gwaharddiad dros dro
Y broses farnu: y panel addasrwydd i ymarfer
Canlyniadau gwrandawiadau addasrwydd myfyriwr i ymarfer
Rhybuddion ffurfiol
Ymgymeriadau
Amodau
Gwahardd o'r cwrs
Diarddeliad o'r cwrs
Terfynu ar sail iechyd
Cofrestru
Gofyniad statudol iechyd da
Gofyniad statudol cymeriad da

# Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer sefydliadau addysgol osteopathig yn nodi'r ymddygiad proffesiynol a'r addasrwydd i ymarfer a ddisgwylir gan fyfyrwyr osteopathig, a sut i fynd i'r afael â phryderon addasrwydd i ymarfer yn ystod astudiaeth myfyriwr tuag at gymhwyster cydnabyddedig.

2. Ein nod yw hyrwyddo cysondeb o ran addasrwydd myfyriwr i ymarfer ar draws yr holl ddarparwyr addysg. Mae llyfryn ategol hefyd ar gyfer myfyrwyr, *Guidance about Professional Behaviours and Fitness to Practise for Osteopathic Students*[1], wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â sefydliadau addysgol osteopathig a myfyrwyr.

3. Darperir gwybodaeth hefyd am ofynion statudol 'cymeriad da' ac 'iechyd da' wrth gofrestru. Fel arfer, y bwriad yw y bydd materion sy'n effeithio ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn cael eu trafod yn ystod y rhaglen astudio. Byddai'n anarferol i fater gael ei drafod cyn dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig ac yna i'r cofrestriad gael ei wrthod o ganlyniad i ystyriaeth bellach o'r un mater.

### *Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol*

4. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn rheoleiddio ymarfer osteopathi yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl y gyfraith, rhaid i osteopathiaid fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor er mwyn ymarfer yn y DU.

   - Mae'r Cyngor yn cadw Cofrestr gyhoeddus o bawb y caniateir iddynt ymarfer osteopathi yn y DU.
   - Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathig i hyrwyddo diogelwch cleifion. Mae'n gosod safonau ac yn monitro'r gwaith o gynnal a datblygu safon uchel o ymarfer ac ymddygiad osteopathig.
   - Mae'r Cyngor hefyd yn sicrhau ansawdd addysg osteopathig ac yn sicrhau bod osteopathiaid yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus.
   - Mae'r Cyngor yn helpu cleifion gydag unrhyw bryderon neu gwynion am osteopath ac mae ganddo'r pŵer i dynnu osteopathiaid nad ydynt yn gymwys i ymarfer oddi ar y Gofrestr.

5. Fel gyda phob rheoleiddiwr gofal iechyd, amcan cyffredinol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys:

   - diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
   - hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi
   - hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.[2]

[1] Ar gael yn: bit.ly/gosc-student-ftp

6. Mae naw rheoleiddiwr statudol yn rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU. Mae'r Cyngor yn rheoleiddio osteopathiaid.

### ***Dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig***

7. Mae dyfarniad o gymhwyster cydnabyddedig mewn osteopathi, gan sefydliad addysgol osteopathig, yn golygu bod y deiliad yn gallu ymarfer heb oruchwyliaeth i'r safonau a ddisgwylir yn *Osteopathic Practice Standards* y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.[3]

8. Unwaith y bydd cymhwyster cydnabyddedig wedi'i ddyfarnu, gall ei ddeiliad wneud cais i gofrestru a chael mynediad at Gofrestr y Cyngor, yn amodol ar fodloni gofynion cymeriad ac iechyd.[4] Os nad oes gwybodaeth ychwanegol ar gael i'r Cyngor, ni fyddai fel arfer yn disgwyl gwrthod cofrestriad i berson sydd wedi derbyn cymhwyster cydnabyddedig.

---

[3] Ar gael yn: bit.ly/gosc-ops
[4] Gweler Adran 3(2) o *Ddeddf Osteopathiaid 1993*.

## Addasrwydd myfyriwr i ymarfer: crynodeb

9. Mae gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn helpu i sicrhau diogelwch cleifion ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn, ac yn cefnogi adferiad myfyrwyr wrth gynnal diogelwch cleifion.

10. Cynlluniwyd y canllawiau hyn i fod yn fframwaith defnyddiol ar gyfer sefydliadau addysgol osteopathig. Fodd bynnag, sefydliadau sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu'n lleol. Er nad yw'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn ffynhonnell apelio am benderfyniadau addasrwydd myfyriwr i ymarfer a wneir gan sefydliadau addysgol, bydd yn craffu ar weithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer fel rhan o'i weithgareddau sicrhau ansawdd. Dylai sefydliadau addysgol egluro sut y byddant yn prosesu cwynion neu apeliadau gan ymgeiswyr.

11. Disgwylir i bob sefydliad addysgol osteopathig egluro i fyfyrwyr sut mae ymddygiadau proffesiynol yn cael eu haddysgu a sut mae cyfleoedd dysgu yn cael eu hwyluso yn ystod eu rhaglen addysgol. Dylai fod yn glir i fyfyrwyr sut y byddant yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i gydymffurfio â'r *Osteopathic Practice Standards*[5] yn y pen draw a bodloni'r canlyniadau a nodir yn y *Guidance on Osteopathic Pre-registration Education*. [6]

12. Disgwylir i bob sefydliad addysgol osteopathig fod â datganiad cyhoeddedig ynghylch sut mae addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn cael ei reoli a'i ymgorffori yn y broses dderbyn a'r rhaglen addysgol. Dylid adolygu'r polisi lleol yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyson â'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y sefydliad addysgol, y brifysgol ddilysu (os yw ar wahân i'r sefydliad) a'r lleoliadau clinigol y darperir gofal osteopathig ynddynt.

13. Dylai fod gan bob lleoliad clinigol ac addysgol weithdrefnau clir ar waith sy'n nodi sut y dylai staff, myfyrwyr a chleifion godi pryderon.

14. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn ynghylch addasrwydd i ymarfer yn cael eu hegluro i fyfyrwyr ar ddechrau eu cwrs a'u gweithredu'n effeithiol.

15. Rhaid ystyried pob penderfyniad ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer fesul achos.

16. Gall materion addasrwydd i ymarfer godi cyn ac yn ystod rhaglen astudio. Gall y safonau ymddygiad derbyniol sy'n ofynnol gan fyfyriwr cyn ac yn ystod eu cwrs fod yn wahanol i'r rhai sy'n ofynnol gan ymarferwyr cofrestredig. Efallai y bydd gwahanol safonau ymddygiad yn ofynnol gan fyfyrwyr ar wahanol gamau o'u cwrs hefyd. Er enghraifft, gall mater addasrwydd i ymarfer sy'n codi ym Mlwyddyn 1, cyn unrhyw gyswllt â chleifion, gael ei drin yn wahanol i'r un mater

[5] Ar gael yn: bit.ly/gosc-ops

[6] Mae'r *Guidance on Osteopathic Pre-registration Education* yn cefnogi'r *Osteopathic Practice Standards* ac yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer myfyrwyr, sefydliadau addysgol, cleifion ac eraill. Mae'n cynnwys y canlyniadau y disgwylir i fyfyrwyr eu dangos cyn iddynt raddio, ac mae ar gael yn: bit.ly/gosc-gopre

addasrwydd i ymarfer a nodwyd ym mlwyddyn olaf addysg a hyfforddiant. Mae dull diffiniedig o ymdrin â'r ffyrdd y caiff dysgu ymddygiad proffesiynol ei drin yn ystod y cwrs yn bwysig, er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i ddeall gofynion proffesiynol ar wahanol adegau yn y cwrs.

17. Ym mhob achos, dylai sefydliadau addysgol osteopathig ond ddyfarnu cymhwyster cydnabyddedig i fyfyrwyr sy'n gallu ymarfer i'r safonau cymhwysedd, ymddygiad a moesegol a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards*. Mewn achosion lle na ellir dangos y safonau gofynnol, efallai y byddai'n briodol dyfarnu cymhwyster arall nad oes ganddo statws cymhwyster cydnabyddedig, ac na all arwain at gofrestriad gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

## Beth yw addasrwydd myfyriwr i ymarfer?

18. Bydd materion y dylai gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer eu hystyried yn cynnwys y rhai a allai effeithio ar y canlynol:

    a. diogelwch cleifion

    b. yr ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn y proffesiwn.

    Gall materion sy'n berthnasol i'w hystyried gynnwys myfyrwyr ar gamau cyn-glinigol a chlinigol eu rhaglenni, ac ymddygiadau yn eu bywydau proffesiynol a phersonol.

19. Dylai gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer gael eu defnyddio'n briodol. Mae canlyniadau gwrandawiad addasrwydd myfyriwr i ymarfer ymwneud â diogelwch cleifion a'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn y proffesiwn. Fel y soniwyd ym mharagraff 15, nid yw hyn yn golygu y gall myfyrwyr yng ngham cyn-glinigol eu hyfforddiant ddianc rhag achosion addasrwydd i ymarfer dim ond oherwydd nad ydynt yn gweld cleifion eto. Byddant yn dal i ddysgu ac ymarfer technegau osteopathig ar eu cydweithwyr, er enghraifft, a bydd llawer yn dal i dreulio amser yn eu clinig addysgu, hyd yn oed fel arsylwr. Bydd y sefydliad addysgol yn ystyried y cleifion mae'r myfyriwr yn debygol o'u gweld yn y dyfodol.

20. Ni ddylai'r broses a'r canlyniadau mewn gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer fod yn gosb i'r myfyriwr. Mae materion sy'n annhebygol o fod yn briodol i alw gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer yn cynnwys colli darlithoedd yn aml, cyflwyno gwaith cwrs yn hwyr ac anallu (yng nghyd-destun y disgwyliadau ar fyfyrwyr ar y cam hwnnw o'u cwrs) i fodloni gofyniad penodol yn yr *Osteopathic Practice Standards* ym mlwyddyn gyntaf eu hastudiaethau. Mae hefyd yn bwysig ystyried a yw'r mater yn codi pryderon am namau iechyd neu anabledd a allai ofyn am addasiadau rhesymol. Yn yr un modd, fodd bynnag, gall y patrymau hyn fod yn symptomatig o broblem arall a allai fod yn fater addasrwydd i ymarfer. Mae canllawiau pellach ynghylch pryd y dylai addasrwydd myfyriwr i ymarfer gael ei ystyried yn ffurfiol ym mharagraff 49.

## Dysgu ymddygiadau proffesiynol

21. Dylai deialog barhaus am broffesiynoldeb redeg drwy addysg cyn-gofrestru osteopathig. Dylai myfyrwyr gael eu cefnogi i ddysgu ymddygiadau proffesiynol, gan gynnwys gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd priodol, yn ogystal â thechnegau i werthuso gwerthoedd, anghenion a dymuniadau cleifion. Dylai'r addysgu hefyd bwysleisio pwysigrwydd bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau cleifion, ac effaith ymddygiadau ar gleifion, staff a chydweithwyr; dylai ganolbwyntio ar fodloni gofynion yr *Osteopathic Practice Standards*[7] a'r canlyniadau a nodir yn y *Guidance on Osteopathic Pre-registration Education*.[8]

22. Bwriad polisïau addasrwydd i ymarfer yw sicrhau diogelwch cleifion (gan gynnwys diogelwch cydweithwyr a staff, lle bo hynny'n briodol). Mae cysylltiad agos rhwng addasrwydd i ymarfer â phroffesiynoldeb. Rheoleiddiwr mwyaf effeithiol addasrwydd unigolyn i ymarfer yw'r unigolyn. Rhaid i weithwyr proffesiynol gymryd cyfrifoldeb am eu haddasrwydd eu hunain i ymarfer a dylent ymatal rhag ymarfer, a chael eu cefnogi i wneud hynny, os na allant ddarparu'r safon ofynnol o ofal. Dylent hefyd gymryd camau i godi pryderon am eraill lle bo hynny'n briodol.

### ***Ffiniau***

23. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal ffiniau priodol gyda chleifion.[9] Dylid eu haddysgu, ar y cyfle cyntaf, am ddeinameg y berthynas therapiwtig a bregusrwydd cleifion.

24. Yn yr un modd, dylid rhoi arweiniad i staff a myfyrwyr sefydliadau addysgol osteopathig ynghylch priodoldeb perthnasoedd personol â myfyrwyr, a'r materion posibl y gallai hyn eu codi. Bydd gan bob sefydliad ei brosesau a'i bolisïau ei hun yn hyn o beth, er y bydd materion perthnasoedd yn seiliedig ar y gwahaniaeth grym rhwng rhywun mewn awdurdod megis addysgwr a myfyriwr a allai fod yn agored i niwed yn gyson i raddau helaeth ar gyfer pob un. Gallai materion ffiniau godi mewn perthynas â chyfeillgarwch a pherthnasoedd cymdeithasol rhwng staff a myfyrwyr, yn ogystal â pherthnasoedd rhywiol. Byddai enghreifftiau o ymddygiadau a allai beri pryder yn cynnwys:

- datgelu neu ofyn am wybodaeth bersonol amhriodol
- cymdeithasu gyda myfyrwyr
- cynnal grwpiau astudio yng nghartref yr aelod o staff
- cyswllt amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol â myfyrwyr at ddibenion nad ydynt yn addysgol.

---

[7] Ar gael yn: bit.ly/gosc-ops
[8] Ar gael yn: bit.ly/gosc-gopre
[9] Gweler canllawiau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar ffiniau rhywiol clir rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion: bit.ly/psa-sexual-boundaries-08

25. Dylai myfyrwyr hefyd fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal ffiniau gyda'u cydweithwyr yn ystod eu hyfforddiant. Mewn cwrs lle ceir cyswllt agos â chyd-fyfyrwyr yn aml, gall yr agosatrwydd sy'n datblygu arwain at gamweddau ffiniau (weithiau'n anfwriadol). Dylid darparu canllawiau i fyfyrwyr am hyn – ac am ymarfer technegau osteopathig ac arferion arholiadau i ffwrdd o safle'r sefydliad addysgol, lle gall materion ffiniau posibl fod hyd yn oed yn fwy amlwg.

26. Gall darparu cymorth, arweiniad ac addysgu cyfrinachol yn gynnar helpu myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth unigol o effaith eu hymddygiad ar eraill a'u cyfrifoldeb dros eu haddasrwydd i ymarfer. Gall hefyd helpu i osgoi problemau mwy difrifol yn ddiweddarach yn ystod y cwrs addysgol, neu'n hwyrach fyth pan fydd yr unigolyn yn ymarfer fel osteopath. Gallai enghreifftiau penodol i gefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o addasrwydd i ymarfer gynnwys:

   c. ymgysylltu â chyflwyniadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a gynigir i bob sefydliad addysgol osteopathig, am ofynion yr *Osteopathic Practice Standards*

   d. defnyddio enghreifftiau o arferion rhwydweithio cymdeithasol gwael – megis gosod postiadau neu ffotograffau amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol – i ddangos materion addasrwydd i ymarfer neu broffesiynoldeb

   e. defnyddio enghreifftiau o achosion addasrwydd i ymarfer a gweithio drwy'r materion dan sylw

   f. cynnwys cyfeiriadau at faterion moesegol, ymddygiad neu gyfathrebu posibl fel rhan annatod o'r broses addysgu a dysgu.

## Codi pryderon

27. Dylid gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i gleifion yn gynnar yn eu cwrs. Os oes ganddynt bryderon am ymddygiad cyd-fyfyriwr neu aelod o staff, dylid eu hannog i godi'r rhain gyda'r sefydliad addysgol yn unol â pholisi cyhoeddedig ar godi pryderon. Dylai'r sefydliad fod yn ymwybodol o'r heriau y gall sefyllfa o'r fath eu peri i fyfyrwyr sy'n codi pryderon, a darparu cymorth priodol. Mae'n bwysig sefydlu a chynnal diwylliant lle mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon fel hyn.

### *Y ddyletswydd gonestrwydd*

28. Yn 2014, cyhoeddodd y Cyngor a rheoleiddwyr eraill ddatganiad ar y cyd ynghylch y ddyletswydd gonestrwydd i gleifion pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u triniaeth neu eu gofal, neu os oes ganddo'r potensial i achosi niwed neu ofid.[10] Bydd hyn yn berthnasol i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, er y cydnabyddir y bydd y cyd-destun yn amrywio'n sylweddol ar gyfer proffesiynau gwahanol. I fyfyrwyr, bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn golygu bod yn agored ac yn onest gyda staff addysgu, yn ogystal â chleifion, pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Dylai sefydliadau addysgol fod yn glir ynghylch sut mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol i fyfyrwyr, a'u cefnogi i ymgysylltu â hyn.

---

[10] Ar gael yn: bit.ly/gosc-candour

## Polisïau a gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer

29. Dylai pob sefydliad addysgol osteopathig sicrhau bod canllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer – ynghyd ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y sefydliad ei hun, gan gynnwys polisïau, datganiadau a gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer – yn cael eu cyhoeddi a'u bod ar gael i fyfyrwyr, darpar fyfyrwyr a staff.

### *Derbyniadau*

30. Cyn cael eu derbyn, gall ymgeiswyr ofyn am gyngor ynghylch ymgymryd â chymhwyster osteopathig cydnabyddedig gan y sefydliadau addysgol osteopathig ac, yn y pen draw, gofrestru gyda'r Cyngor. Dylai sefydliadau addysgol ganiatáu i ddarpar ymgeiswyr drafod eu cais a derbyn arweiniad am yr *Osteopathic Practice Standards*.[11] Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol hefyd o *Subject Benchmark Statement: Osteopathy*[12] yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a *Guidance on Osteopathic Pre-Registration Education*[13] y Cyngor, sy'n nodi safonau cymhwysedd a all eu helpu i wneud cais priodol.

31. Wrth ystyried cais, dylai sefydliadau addysgol osteopathig ystyried eu bod yn anelu at gynhyrchu graddedigion *'able to demonstrate the qualities of an autonomous patient-focused practitioner who is competent, caring, empathetic, trustworthy, professional, confident, self-aware and inquiring, and who has a high level of practical skills and problem solving ability'*.[14]

32. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig hefyd fod â meini prawf cadarn ar waith, yn seiliedig ar egwyddorion diogelu'r cyhoedd, ar gyfer ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gofynion proffesiynol sy'n cael eu datgelu gan geisiadau neu ddogfennau ategol megis gwiriadau manwl y Cynllun Datgelu a Gwahardd (DBS) a hunanddatganiadau rheolaidd.

33. Mae Health Education England wedi ymgymryd â phrosiect mawr i ddatblygu fframwaith mewn perthynas â recriwtio ar sail gwerthoedd yn y GIG, ac efallai y bydd sefydliadau addysgol yn cael yr adnoddau ar ei wefan[15] yn ddefnyddiol. Mae'r gwahaniaethau rhwng recriwtio myfyrwyr i raglenni osteopathi a recriwtio i broffesiynau gofal iechyd yn y GIG yn cael eu cydnabod. Fodd bynnag, gallai'r gwerthoedd a ddatblygwyd gan y GIG fod yr un mor gymwys mewn proffesiynau gofal iechyd eraill, ac mae'n ddefnyddiol gweld y strategaethau a ddefnyddir er mwyn sicrhau bod gan recriwtiaid i raglenni gofal iechyd yn y GIG werthoedd sy'n cyfateb i werthoedd y sefydliad cyfan.

[11] Ar gael yn: bit.ly/gosc-ops
[12] Ar gael yn: bit.ly/qaa-benchmark-osteopathy
[13] Fe'u gwelwch i gyd yn: bit.ly/gosc-gopre
[14] Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, *Subject Benchmark Statement: Osteopathy* (gweler 14 uchod), cymal 4.2.
[15] Gweler www.hee.nhs.uk/work-programmes/values-based-recruitment/

### *Anableddau a namau iechyd*

34. Fel pob rheoleiddiwr gofal iechyd, mae'r Cyngor yn awyddus i hyrwyddo cyfranogiad llawn gan bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd yn y proffesiynau iechyd drwy gael gwared ar ofnau cyffredin am brosesau rheoleiddio, gan helpu pawb sy'n ymwneud ag osteopathi i ddeall yn well sut y gall ymarfer gael ei reoli i fodloni'r safonau gofynnol.[16]

35. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyhoeddi llyfrynnau am reoli anabledd neu namau iechyd i gefnogi myfyrwyr a sefydliadau addysgol osteopathig: *Students with a Disability or Health condition: Guidance for Osteopathic Educational Institutions*[17] a *Guidance for Applicants and Students with a Disability or Health condition*[18]. Mae'r rhain yn pwysleisio cyfrifoldebau cyfreithiol sefydliadau addysgol i gefnogi myfyrwyr ac i wneud addasiadau rhesymol er mwyn cefnogi myfyrwyr i gyflawni safonau. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cyhoeddi canllawiau, *Gateways to the Professions*[19], a allai hefyd fod yn adnodd defnyddiol i sefydliadau addysgol.

36. Mae canllawiau’r Cyngor yn darparu fframwaith cyson i sefydliadau addysgol osteopathig ac enghreifftiau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol yn llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr â chyflyrau iechyd neu anableddau penodol. Mae hefyd yn helpu sefydliadau addysgol i wneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau lle ystyrir materion sy'n ymwneud ag iechyd ac anabledd. Dylai sefydliadau annog ymgeiswyr ag anableddau neu namau iechyd i ddarllen y canllawiau, a dechrau trafodaethau â nhw am yrfa mewn osteopathi.

37. Fel rhan o'r broses dderbyn, bydd y sefydliad addysgol osteopathig yn asesu a oes gan fyfyrwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau i gael mynediad i'r cwrs, y gallu i alluogi darpar fyfyrwyr i fodloni'r safonau cymhwysedd ar ddiwedd y rhaglen, a'r potensial i ymarfer heb oruchwyliaeth, yn annibynnol ac yn ddiogel (gan ganiatáu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol lle bo hynny'n briodol).

38. Yn ystod cwrs Cymhwyster Cydnabyddedig, gall anabledd, cyflwr iechyd neu nam arall ei gwneud yn amhosibl i fyfyriwr fodloni'r gofynion a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards* heb gymorth. Dylid rhoi cyfle iddynt gael trafodaeth lawn am y mathau o addasiadau rhesymol a allai eu galluogi i gyrraedd y safonau gofynnol yn ystod eu haddysg; dylent gael cyfle hefyd i drafod y strategaethau y bydd angen iddynt eu defnyddio ar ôl cofrestru i hunanreoli eu hanabledd neu eu cyflwr iechyd a sicrhau ymarfer diogel. Dylai'r trafodaethau hyn gael eu cynnal cyn gynted â phosibl yn y broses. Rhaid i sefydliadau addysgol osteopathig wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr o'r fath, er mwyn eu galluogi i fodloni'r safonau cymhwysedd os yw hyn yn bosibl. Ni ddylai addasiadau rhesymol gael eu gwneud i'r safonau eu hunain, ond yn hytrach i'r dull dysgu a'r ffordd y caiff y myfyriwr ei asesu yn erbyn y gofynion.

---

[16] Gweler tudalen 17 o gyhoeddiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd gynt), *Health Conditions: Report to the four UK Health Departments,* Mehefin 2009. Ar gael yn: bit.ly/psa-health-conditions-09

[17] Ar gael yn: bit.ly/gosc-oei-health-guidance

[18] Ar gael yn: bit.ly/gosc-student-health-guidance

[19] Ar gael yn: www.gmc-uk.org/education/undergraduate/gateways_guidance.asp

39. Yn dilyn trafodaethau rhwng sefydliad addysgol osteopathig a myfyriwr, os ymddengys na ellir gwneud unrhyw addasiadau rhesymol a fydd yn galluogi'r myfyriwr i fodloni'r *Osteopathic Practice Standards* gofynnol, mae angen ystyried opsiynau pellach. Byddai'n anghyffredin i drafodaethau o'r fath arwain at wrandawiad addasrwydd i ymarfer ffurfiol; fodd bynnag, gellir nodi'r cam gweithredu hwn os yw'r holl lwybrau wedi'u harchwilio, ac os na all y ddwy ochr gytuno ar ffordd ymlaen.

### ***Euogfarnau a rhybuddion blaenorol***

40. Wrth wneud penderfyniad ynghylch a all ymddygiad neu euogfarnau blaenorol gwestiynu addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer a'i allu i gwblhau cymhwyster cydnabyddedig, dylai sefydliadau addysgol osteopathig ystyried eu canllawiau eu hunain, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau sydd ar gael gan eu prifysgol ddilysu (lle mae hyn ar wahân) ac unrhyw sefydliad perthnasol arall megis y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae'n ofynnol i sefydliadau fod â phrosesau penodol ar waith i roi'r canllawiau ar waith yn effeithiol.

41. Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei amgylchiadau unigol. Er mwyn galluogi gwneud penderfyniad cytbwys, mae'n bwysig bod y holl wybodaeth sydd ar gael yn gallu cael ei hystyried gan y sefydliad addysgol osteopathig. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r broses dderbyn annog a chefnogi ymgeiswyr i ddatgelu'r holl wybodaeth berthnasol i'r sefydliad, ac i gydsynio i ddatgelu gwybodaeth bellach gan asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol.

42. Fel arfer, disgwylir y byddai darpar fyfyrwyr sydd â mathau penodol o euogfarnau yn cael eu gwrthod i raglen cymhwyster cydnabyddedig ar sail diogelwch cleifion. Gallai hyn fod yn berthnasol i bobl sydd, er enghraifft:

- wedi cyflawni troseddau rhywiol neu dreisgar difrifol, gan arwain at euogfarnau a arweiniodd at ddedfryd o garchar
- wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant ar unrhyw restr swyddogol
- wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, o dan gynlluniau datgelu a gwahardd yn y DU a thu hwnt.

43. Rhaid i'r sefydliad addysgol osteopathig benderfynu a fyddai addasrwydd i ymarfer yn parhau i gael ei amharu o dan yr holl amgylchiadau. Mae'r materion sydd angen eu hystyried yn ddifrifol yn cynnwys:

- anonestrwydd, twyll neu gamgyfleu
- dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol
- camfanteisio ar ymddiriedaeth neu ymddygiad amhriodol arall gyda phobl agored i niwed
- torri cyfrinachedd
- bygythiadau i iechyd, diogelwch neu les y cyhoedd
- diystyru'r gyfraith neu'r system gofrestru yn amlwg
- gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon, yn groes i ofynion *Deddf Cydraddoldeb 2010*.

44. Wrth wneud penderfyniad o'r fath, dylai'r sefydliad addysgol osteopathig ystyried y ffactorau canlynol:

   g. Beth yw'r amgylchiadau a arweiniodd at yr euogfarn hon?

   h. Faint o amser sydd ers i'r ymddygiad troseddol ddigwydd?

   i. Pa mor ddifrifol yw'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'r euogfarn?

   j. A yw'r person hwn wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion mewn unrhyw awdurdodaeth neu a yw ar unrhyw restr swyddogol?

   k. A oes gan y person ddeallwriaeth o’r amgylchiadau a arweiniodd at yr euogfarn?

   l. Pa gamau unioni y mae wedi'u cymryd?

   m. A yw'r dystiolaeth yn dangos bod cleifion yn dal i fod mewn perygl gyda'r person hwn?

   n. A fydd lles cleifion yn ddiogel gyda'r person hwn?

   o. A fydd derbyn y person hwn i gwrs hyfforddi osteopathig yn effeithio ar yr ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn y proffesiwn, gan arwain wedyn at gymhwyster cydnabyddedig a chofrestriad y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (yn amodol ar ofynion iechyd a chymeriad statudol)?

***Enghraifft achos***[20]

*Mae ymgeisydd 25 oed yn cyfaddef iddo gael dedfryd o chwe mis yn y carchar am fyrgleriaeth pan oedd yn 18 oed. Mae'n agored iawn am amgylchiadau hyn, a sut yr oedd wedi ymddieithrio o addysg pan oedd yn yr ysgol, ac wedi treulio amser gyda grŵp a oedd wedi annog ymddygiad troseddol. Mae'n dweud mai ei ddedfryd oedd y sioc yr oedd ei angen arno, ac fe wnaeth lawer o fyfyrio ar ei agwedd yn ystod ei amser yn y carchar. Ar ôl ei ryddhau, dychwelodd i addysg, a llwyddodd i ennill 2 gymhwyster Safon Uwch. Mae wedi bod yn gweithio i elusen sy'n helpu i ailsefydlu cyn-garcharorion, ac mae wedi datblygu uchelgais cryf i fod yn osteopath, ar ôl cael rhywfaint o driniaeth yn y gorffennol yn dilyn anaf i'w gefn.*

*Mae'r sefydliad addysgol osteopathig yn hapus i gynnig lle iddo. Mae'n onest am ei ymddygiad yn y gorffennol, ac mae'n dangos cryn hunanymwybyddiaeth ynghylch amgylchiadau ei euogfarn. Nid yw wedi dangos unrhyw arwydd o ddychwelyd i weithgarwch troseddol ers iddo gael ei ryddhau dros chwe blynedd yn ôl, ac mae wedi dangos ymrwymiad i ennill ei gymwysterau Safon Uwch, ac i'w waith i elusen. Teimlir na fydd ei euogfarn yn y gorffennol yn effeithio ar ei addasrwydd i ymarfer.*

[20] Mae hwn yn achos ffuglennol i egluro sut mae'r canllawiau'n cael eu defnyddio, ac nid yw'n ymwneud ag unrhyw unigolyn neu sefydliad addysgol osteopathig penodol.

### ***Gofal bugeiliol a chymorth i fyfyrwyr***

45. Unwaith y byddant ar raglen cymhwyster cydnabyddedig, dylai myfyrwyr gael cyfleoedd i ddysgu ymddygiad proffesiynol, a dylid eu hannog i geisio cymorth ar gyfer unrhyw fater cyn iddo ddod yn bryder addasrwydd i ymarfer.

46. Pan fo materion diogelwch cleifion yn codi, rhaid cyfleu hyn i'r person perthnasol sydd ag atebolrwydd am faterion addasrwydd i ymarfer fel y gellir ymdrin â'r mater yn ffurfiol ac yn unol â gweithdrefnau sefydledig, er mwyn sicrhau bod diogelwch a lles cleifion yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, dylid cynnig cymorth i'r myfyriwr ochr yn ochr â'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ac yn annibynnol arnynt. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig annog amgylchedd lle mae codi llais yn cael ei annog a'i gefnogi, os teimlir bod unrhyw ymarfer neu ymddygiad yn peryglu addasrwydd unigolyn i ymarfer neu ddiogelwch cleifion.

### ***Os na ellir dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig***

47. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig ystyried eu dull o ymdrin â myfyrwyr na ellir dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig iddynt oherwydd materion addasrwydd i ymarfer. Lle y bo'n briodol, dylent archwilio llwybrau amgen y gellir eu darparu i fyfyrwyr yn y sefyllfa hon; gallai'r rhain gynnwys dyfarnu cymhwyster nad yw'n un cydnabyddedig, ac felly nad yw'n arwain at gofrestriad gyda'r GOsC.

## Trothwy addasrwydd myfyriwr i ymarfer

48. Nid yw myfyrwyr yn cael ymarfer fel osteopathiaid eto. Maent o dan rwymedigaeth i gadw at yr *Osteopathic Practice Standards*[21], ond ar safon sy'n briodol i'w lefel o hyfforddiant ar y pryd, wrth drin cleifion dan oruchwyliaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw eu hymddygiad yn effeithio ar yr ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd mewn ymarferwyr gofal iechyd.

49. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig benderfynu a ellir ymdrin â materion sy'n codi fel rhan o waith adfer yn ystod y cwrs, neu a ddylid ystyried achosion addasrwydd i ymarfer ffurfiol. Yn rhannol, bydd y dyfarniad hwn yn dibynnu ar y mater dan sylw, a'r cam mae'r myfyriwr ynddo yn ei hyfforddiant. Bydd diogelwch cleifion ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn yn cael eu heffeithio gan y ddau faen prawf. Gellir gwneud y dyfarniad hwn hefyd ar ddiwedd y cam ymchwilio a nodir ym mharagraffau 52-62 o'r canllawiau hyn.

50. Wrth benderfynu a yw unrhyw ddigwyddiad untro neu batrwm ymddygiad yn effeithio ar addasrwydd i ymarfer, gellir ystyried y cwestiynau canlynol:

    a. Pa mor ddifrifol yw'r ymddygiad?

    b. A oedd hwn yn ddigwyddiad untro, neu'n cynrychioli patrwm ymddygiad?

    c. Beth yw lefel yr aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth a ddangoswyd gan y myfyriwr?

    d. Beth yw'r tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad yn cael ei ailadrodd?

    e. Pa gam o'r cwrs mae'r myfyriwr yn ei wneud? A yw yn y flwyddyn gyntaf, er enghraifft, neu yn ei flwyddyn glinigol olaf, yn agosáu at raddio?

    f. Pa mor dda y bydd y myfyriwr yn ymateb i gymorth ac adferiad?

[21] Ar gael yn: bit.ly/gosc-ops

51. Os ymdrinnir ag ymddygiad penodol neu faterion eraill drwy waith adfer, dylid cofnodi hynny. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw batrymau ymddygiad yn cael eu nodi ac yn cael sylw cyn graddio. O dan rai amgylchiadau, efallai y byddai'n briodol trosglwyddo gwybodaeth o'r fath i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.[22]

52. Ar ddiwedd y cwrs, bydd y myfyriwr fel arfer yn derbyn y cymhwyster cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu ymarfer yn unol â'r *Osteopathic Practice Standards* sydd ar waith ar y pryd. Os gallai'r mater a nodwyd effeithio ar y dyfarniad hwn, dylid cychwyn y gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer ffurfiol.

## Y broses ymchwilio

53. Unwaith y bydd y broses wedi cychwyn, dylid dilyn gweithdrefn deg, dryloyw a chyhoeddedig i sicrhau cysondeb i bawb a dull cyffredin o archwilio materion cymhwyster i ymarfer. Dylai'r weithdrefn a'r amserlenni hyn fod yn glir i'r myfyriwr a'r rhai sy'n ymwneud â'r achos addasrwydd i ymarfer, a dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr am gynnydd eu hachos. Dylai'r broses fod yn gyson â'r hyn a ddisgwylir gan y brifysgol ddilysu (os yw ar wahân i'r sefydliad addysgol osteopathig), ac â'r egwyddorion yn y canllawiau hyn.

54. Dylid cyfeirio'r myfyriwr at gymorth annibynnol.

55. Dylai rôl yr ymchwilydd gael ei chyflawni gan berson cymwys ac annibynnol addas, yn unol â'r gweithdrefnau a osodwyd gan y sefydliad addysgol osteopathig.

### *Rôl yr ymchwilydd*

56. Rôl yr ymchwilydd yw coladu a chyflwyno'r dystiolaeth, er mwyn llywio penderfyniad ynghylch a amharir ar addasrwydd y myfyriwr i ymarfer. Dylai'r ymchwilydd fod yn annibynnol ar y panel addasrwydd i ymarfer a fydd yn gwneud penderfyniadau, ac ni ddylai fod yn diwtor personol (neu debyg) y myfyriwr nac yn ymwneud fel arall â chefnogi'r myfyriwr.

57. Dylai'r ymchwilydd gadw cofnod llawn o'r ymchwiliad, y dylid ei gynnal mewn modd cymesur, gan ystyried buddiannau cleifion a'r cyhoedd, a hefyd y myfyriwr.

58. Wrth ystyried cyflwyno tystiolaeth, gall yr ymchwilydd ystyried y cwestiynau canlynol:

    a. A yw ymddygiad y myfyriwr wedi niweidio cleifion (gan gynnwys cydweithwyr a staff) neu eu rhoi mewn perygl o niwed?

    b. A yw'r myfyriwr wedi dangos ei fod yn diystyru'n fwriadol neu'n ddi-hid gyfrifoldebau proffesiynol a chlinigol tuag at gleifion neu gydweithwyr?

---

[22] Mae deddfwriaeth diogelu data ond yn caniatáu trosglwyddo'r math hwn o wybodaeth i drydydd parti gyda chydsyniad y myfyriwr. Efallai y byddai'n briodol i sefydliadau addysgol osteopathig ystyried a ddylid gofyn i bob myfyriwr gydsynio i ddatgelu gwybodaeth o'r fath fel amod derbyn, er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd diogelwch cleifion.

c. A yw'r myfyriwr wedi camfanteisio ar ymddiriedaeth claf neu wedi torri ymreolaeth neu hawliau sylfaenol eraill claf?

d. A yw'r myfyriwr wedi dangos ei fod yn diystyru'n fwriadol ac yn ddi-hid y prosesau ar gyfer darparu gofal osteopathig neu'n rhoi enw da'r sefydliad addysgol osteopathig, y clinig neu leoliad arall mewn perygl?

e. A yw'r myfyriwr wedi ymddwyn yn anonest, yn dwyllodrus neu mewn ffordd a fydd yn camarwain neu'n niweidio eraill?

f. A yw iechyd neu anabledd y myfyriwr, neu ei reolaeth ar hyn, yn peryglu diogelwch cleifion?

59. Os mai 'ydy' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, byddai fel arfer yn briodol cyflwyno'r dystiolaeth i banel cymhwyster i ymarfer.

60. Efallai y bydd yr ymchwilydd yn ystyried y cwestiynau canlynol hefyd:

a. A yw'r myfyriwr wedi dangos dealltwriaeth o’r ymddygiad? Pryd dangosodd y myfyriwr ddealltwriaeth o’r ymddygiad? A yw'r myfyriwr wedi ystyried camau priodol neu ymddygiad datblygiadol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd?

b. A oes amgylchiadau lliniarol a gyfrannodd at y mater addasrwydd i ymarfer, ac wedi'u cydnabod? A ystyriwyd y posibilrwydd y gallai fod angen addasiad rhesymol? A oes camau wedi'u cymryd i geisio cymorth ychwanegol o dan yr amgylchiadau hyn?

61. Dylai'r ymchwilydd gadw cofnodion o'r ymchwiliad, gan gynnwys cofnodion o gwynion, nodiadau cyfarfodydd a gynhelir, cyfweliadau a datganiadau. Dylid llunio adroddiad ysgrifenedig sy'n rhoi canlyniadau'r ymchwiliad ac sy'n manylu ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd.

62. Dylai'r ymchwilydd gyflwyno ei ganfyddiadau i unigolyn neu bwyllgor, yn unol â phrosesau'r sefydliad addysgol osteopathig. Os yw'r unigolyn neu'r pwyllgor hwnnw'n ystyried, yng ngoleuni adroddiad yr ymchwilydd, fod ymddygiad y myfyriwr yn ddigon difrifol neu barhaus i gwestiynu ei addasrwydd i ymarfer, dylid atgyfeirio'r achos i banel addasrwydd i ymarfer.

63. Gall yr unigolyn neu'r pwyllgor perthnasol benderfynu nad oes digon o dystiolaeth i gwestiynu cymhwyster i ymarfer y myfyriwr. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y teimlir bod angen mesurau ychwanegol i sicrhau bod y myfyriwr yn gallu mynd i'r afael â'r materion a ysgogodd yr ymchwiliad, a bydd angen hysbysu'r myfyriwr a'r holl staff addysgu perthnasol am y rhain. Mae'n bwysig sicrhau bod pob mater difrifol sy'n cyrraedd trothwy addasrwydd i ymarfer myfyriwr (gweler paragraffau 47-51) yn cael eu hystyried drwy'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer, yng ngoleuni'r goblygiadau i ddiogelwch cleifion.

*Gwaharddiad dros dro*

64. Ar ddechrau'r ymchwiliad, efallai y bydd angen ystyried atal y myfyriwr rhag dod i gysylltiad â chleifion neu ei wahardd o'r cwrs tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo. Efallai y bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion, cydweithwyr neu'r myfyriwr. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig sicrhau bod y penderfyniad yn gymesur, yn deg ac yn cael ei ail-werthuso'n rheolaidd.

## Y broses farnu: y panel addasrwydd i ymarfer

65. Ni ddylai'r panel addasrwydd i ymarfer gynnwys yr ymchwilydd enwebedig. Gall fod yn fuddiol i'r panel gynnwys staff o sefydliadau addysgol osteopathig eraill, i helpu i ddangos ystyriaeth wrthrychol o'r dystiolaeth. Bydd cymysgedd o arbenigedd proffesiynol, addysgol a lleyg fel arfer yn briodol. Dylai pob aelod o'r panel fod yn gyfarwydd â'r canllawiau hyn, canllawiau lleol a chanllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar reoli myfyrwyr ag anabledd a chyflyrau iechyd a materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

66. Dylai'r panel addasrwydd i ymarfer sicrhau bod y myfyriwr yn cael digon o rybudd ynghylch dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad addasrwydd i ymarfer, a dylai roi gwybodaeth i'r myfyriwr am drefn y gwrandawiad. Dylid rhoi cyfle i'r myfyriwr gasglu unrhyw dystiolaeth angenrheidiol, gan gynnwys tystiolaeth feddygol, lle bo hynny'n berthnasol. Dylai'r myfyriwr hefyd gael cyfle i fynychu'r gwrandawiad gyda chefnogwr annibynnol, gwybodus a gwrthrychol. Dylai'r myfyriwr gael amlinelliad o'r honiadau a'r dystiolaeth sydd i'w chyflwyno cyn gynted â phosibl, fel y gall baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Rhaid cymryd camau i archwilio a oes angen addasiadau rhesymol ar y myfyriwr i fynychu gwrandawiad y panel.

67. Bydd y panel addasrwydd i ymarfer yn clywed y dystiolaeth gan yr ymchwilydd a chan y myfyriwr. Yna, bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a amharir ar addasrwydd i ymarfer. Os amharir ar addasrwydd i ymarfer, dylai'r panel ganiatáu i'r myfyriwr gyflwyno mesurau lliniaru. Yna, bydd y panel yn ystyried cosbau.

68. Dylai'r panel addasrwydd i ymarfer:

    a. ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymchwilydd

    b. ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd gan y myfyriwr

    c. penderfynu a yw addasrwydd i ymarfer yn cael ei amharu drwy gyfeirio at y cydbwysedd rhwng diogelwch cleifion a'r cyhoedd, buddiannau'r myfyriwr a'r angen i gynnal ymddiriedaeth yn y proffesiwn

    d. ystyried mesurau lliniaru a gyflwynwyd

    e. penderfynu ar y gosb briodol.

## Canlyniadau gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer myfyriwr

69. Mae canlyniadau gwrandawiad addasrwydd i ymarfer myfyriwr yn ymwneud â diogelwch cleifion, lles y cyhoedd a'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn y proffesiwn. Ni ddylai'r canlyniadau fod yn gosb i'r myfyriwr.

70. Rhaid i raddedigion ddatgelu'r holl gosbau a osodir o ganlyniad i wrandawiadau addasrwydd i ymarfer i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) fel rhan o'r cais i gofrestru.

71. Rhaid i fyfyrwyr hefyd gydsynio i ddatgelu cosbau addasrwydd i ymarfer myfyriwr gan y sefydliad addysgol osteopathig i staff eraill lle bo angen at ddibenion diogelwch cleifion, a hefyd i'r Cyngor. Er enghraifft, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, fel arfer bydd yn briodol i'r rhai sy'n goruchwylio myfyrwyr fod yn ymwybodol o unrhyw gosbau addasrwydd i ymarfer myfyriwr, er mwyn diogelu cleifion, cydweithwyr neu staff.

72. Rhaid i sefydliadau addysgol osteopathig adrodd achosion addasrwydd i ymarfer myfyriwr i'r Cyngor fel rhan o'u Hadroddiad Blynyddol. Dylent hefyd roi gwybod am fanylion myfyrwyr unigol sydd wedi bod yn destun gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer myfyriwr.

73. Mae canlyniadau posibl gwrandawiad addasrwydd i ymarfer myfyriwr yn cynnwys y canlynol:

    a. Ni amharir ar addasrwydd i ymarfer ac nid oes achos i'w ateb.

    b. Tystiolaeth o gamymddwyn ond ni amharir ar addasrwydd i ymarfer ar hyn o bryd.

    c. Y farn yw bod addasrwydd y myfyriwr i ymarfer wedi'i amharu ac mae'n derbyn cosb ffurfiol. Gan ddechrau gyda'r lleiaf difrifol, dyma'r cosbau:

        i. rhybudd ffurfiol

        ii. ymgymeriad

        iii. amodau

        iv. gwahardd o'r cwrs osteopathig neu rannau ohono

        v. diarddel o'r cwrs osteopathig.

74. Diben rhoi cosb yw amddiffyn cleifion a'r cyhoedd, cynnal ymddiriedaeth yn y proffesiwn a sicrhau bod myfyrwyr yr amharir ar eu haddasrwydd i ymarfer yn cael eu trin yn effeithiol drwy eu monitro agos neu hyd yn oed eu tynnu oddi ar eu cwrs os oes angen. Yn gyffredinol, dylai myfyrwyr gael cyfle i ddysgu o'u camgymeriadau.

75. Dylai paneli ystyried a fydd y gosb yn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd ac yn cynnal safonau proffesiynol.

76. Mae'n bwysig, pan fydd panel yn penderfynu rhoi cosb, ei fod yn:

- ei gwneud yn glir yn ei benderfyniad ei fod wedi ystyried yr holl opsiynau
- esbonio pam ei fod yn ystyried ei benderfyniad i fod yn ymateb priodol a chymesur
- rhoi rhesymau clir, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniaru neu waethygu a ddylanwadodd ar ei benderfyniad, am roi cosb benodol
- lle bo'n briodol, cynnwys esboniad ar wahân ynghylch pam yr ystyriwyd bod angen hyd penodol o gosb.

### *Rhybuddion ffurfiol*

77. Mae rhybudd yn caniatáu i'r sefydliad addysgol osteopathig ddweud wrth fyfyriwr fod ei ymddygiad yn gwyro oddi wrth y safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr osteopathig ac na ddylid ei ailadrodd. Mae'n ymateb ffurfiol er mwyn cynnal gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol, gan danlinellu pwysigrwydd diogelwch cleifion. Dylai fod cymorth digonol i'r myfyriwr fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol a allai fod wedi cyfrannu at ei ymddygiad gwael.

78. Mae cofnodi rhybuddion yn ffurfiol yn caniatáu i'r sefydliad addysgol osteopathig nodi unrhyw ymddygiad ailadroddus a chymryd camau priodol. Gall panel ystyried unrhyw achos o dorri rhybudd mewn perthynas ag achos yn erbyn y myfyriwr yn y dyfodol, gan y gall ddangos patrwm o ymddygiad gyda goblygiadau penodol i'w addasrwydd i ymarfer. Dylai'r rhybudd barhau ar gofnod y myfyriwr, a rhaid i'r myfyriwr fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau i ddatgelu'r rhybudd wrth wneud cais i gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Fel arfer, ni fydd y Cyngor yn cymryd camau pellach os gwyddys bod y mater wedi cael ei ddatrys yn y sefydliad addysgol. Fodd bynnag, os na chaiff y wybodaeth ei datgelu, gallai hyn godi pryderon ynghylch cofrestru y bydd angen ymchwilio ymhellach iddynt.

79. Efallai y bydd y panel addasrwydd i ymarfer am ystyried y cwestiynau canlynol wrth benderfynu a yw'n briodol cyhoeddi rhybudd:

a. A oes tystiolaeth y gallai'r myfyriwr beri perygl i gleifion (gan gynnwys cyd-fyfyrwyr a staff) neu'r cyhoedd? Os felly, mae'n annhebygol y bydd rhybudd yn briodol.

b. A yw'r myfyriwr wedi ymddwyn yn amhroffesiynol?

c. A yw'r myfyriwr wedi dangos dealltwriaeth o’r ymddygiad ac effaith yr ymddygiad?

d. A yw ymddygiad y myfyriwr yn codi pryderon, ond nid i'r fath raddau fel nad yw'r myfyriwr yn gymwys i ymarfer ar hyn o bryd (er efallai nad oedd yn gymwys i ymarfer yn y gorffennol agos)?

e. A yw'r pryderon yn ddigon difrifol fel, pe bai ailadrodd, y byddai'n debygol o arwain at amhariad ar addasrwydd i ymarfer? Bydd angen i'r panel ystyried i ba raddau y gallai'r pryder effeithio ar ddiogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

### *Ymgymeriadau*

80. O dan amgylchiadau penodol, gall y panel addasrwydd i ymarfer gytuno ar ymgymeriad gyda'r myfyriwr dan sylw, a chytuno i atal achosion pellach tra bo'r ymgymeriad ar waith. Gall ymgymeriadau fod o gymorth pan fo'r sefydliad addysgol a'r myfyriwr yn cytuno y gellir amharu ar addasrwydd i ymarfer a chytuno ar sut y gellir sicrhau diogelwch cleifion i'r dyfodol.

81. Cytundeb rhwng y myfyriwr a'r sefydliad addysgol osteopathig yw ymgymeriad lle ceir cydnabyddiaeth benodol y gellir amharu ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer. Fel arfer, gellir bwrw ymlaen â'r cytundeb hwn cyn neu yn lle gwrandawiad neu benderfyniad addasrwydd i ymarfer ffurfiol.

82. Gall ymgymeriadau gynnwys cyfyngiadau ar ymarfer clinigol neu ymddygiad y myfyriwr, neu ymgymeriad i ymgymryd â goruchwyliaeth feddygol neu addysgu adferol. Fel gydag amodau (gweler paragraffau 85-89), maent yn debygol o fod yn briodol os yw'r pryderon ynghylch addasrwydd y myfyriwr i ymarfer yn golygu mai cyfnod o addysgu neu oruchwyliaeth adferol, neu'r ddau, yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw.

83. Bydd ymgymeriadau ond yn briodol os oes lle i gredu y bydd y myfyriwr yn cydymffurfio - er enghraifft, oherwydd bod y myfyriwr wedi dangos dealltwriaeth wirioneddol o'i broblemau a'r effaith y mae'r ymddygiad wedi ei chael neu y gallai'r ymddygiad fod wedi ei chael ar gleifion, cydweithwyr a staff. Dylai'r myfyriwr ddangos potensial ar gyfer adfer hefyd. Efallai y bydd y panel yn dymuno gweld tystiolaeth bod y myfyriwr wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hun a, lle bo angen, wedi cymryd camau i wella ei ymddygiad.

84. Wrth ystyried a ddylid gwahodd y myfyriwr i dderbyn ymgymeriadau, dylai'r panel ystyried:

    a. a yw'n ymddangos bod ymgymeriadau'n cynnig mesurau diogelu digonol i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd, myfyrwyr eraill a staff

    b. a yw'r myfyriwr wedi dangos digon o ddealltwriaeth, gan gynnwys dealltwriaeth o effaith yr ymddygiad.

85. os nad yw ymgymeriad yn addas neu'n briodol, a ddylai'r panel addasrwydd i ymarfer ailymgynnull yn unol â'r fframwaith a'r canllawiau sydd ar waith.

### *Amodau*

86. Mae gosod amodau ar gyfranogiad parhaus y myfyriwr yn y rhaglen yn briodol pan fo pryder sylweddol am ymddygiad neu iechyd y myfyriwr, yn dilyn canfyddiad bod ei ymddygiad yn amharu ar ei addasrwydd i ymarfer. Dylid ond gweithredu'r gosb hon os yw'r panel yn fodlon y gallai'r myfyriwr ymateb yn gadarnhaol i hyfforddiant adfer a mwy o oruchwyliaeth, a'i fod wedi dangos mewnwelediad i'w broblemau. Dylai'r panel ystyried unrhyw dystiolaeth megis adroddiadau ar berfformiad, iechyd ac ymddygiad y myfyriwr ac unrhyw amgylchiadau lliniaru eraill.

87. Dylid egluro amcanion unrhyw amodau fel bod y myfyriwr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddo, ac fel y gall panel mewn adolygiad yn y dyfodol nodi'r diffygion gwreiddiol a'r cynigion ar gyfer eu cywiro. Dylai unrhyw amodau fod yn briodol, yn gymesur, yn ymarferol ac yn fesuradwy, a dylent bennu amser penodol ar gyfer adolygu cynnydd.

88. Cyn gosod amodau, dylai'r panel fodloni ei hun:

  a. y gellir gwella'r ymddygiad drwy osod amodau fel rhan o gynllun gweithredu

  b. bod amcanion yr amodau yn glir

  c. y bydd unrhyw adolygiad o'r cynllun gweithredu yn y dyfodol yn gallu penderfynu a yw'r amcan wedi'i gyflawni, ac a fydd cleifion yn dal i wynebu risg

  d. bod yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i oruchwylio'r myfyriwr dan amodau ar waith neu y byddant ar gael.

89. Er nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gall amodau fod yn briodol pan fydd y ffactorau canlynol, neu'r rhan fwyaf ohonynt, yn amlwg:

- Mae'r myfyriwr wedi dangos digon o ddealltwriaeth, ac nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'n gallu dilyn gwerthoedd proffesiynol ac arfer da.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o bersonoliaeth niweidiol dwfn na phroblemau agwedd.
- Mae rhannau o astudiaethau'r myfyriwr sydd angen asesiad neu gamau adferol pellach.
- Mae potensial i adferiad fod yn llwyddiannus.
- Mae'r myfyriwr yn barod i ymateb yn gadarnhaol i gymorth ac amodau.
- Mae'r myfyriwr yn barod i fod yn onest ac yn agored gyda chleifion, cydweithwyr a goruchwylwyr os aiff pethau o chwith.
- Ni fydd cleifion (gan gynnwys cydweithwyr a staff) yn cael eu rhoi mewn perygl naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i'r amodau.
- Mae'n bosibl llunio amodau priodol ac ymarferol y gellir eu gwirio a'u monitro, ac a fydd yn amddiffyn cleifion yn ystod yr amser y maent mewn grym.

90. Mewn perthynas â rheoli namau iechyd neu anabledd, os yw addasiadau rhesymol wedi methu oherwydd ymddygiad 'diffyg cydymffurfiaeth' ond bod parodrwydd gwirioneddol i reoli'r nam iechyd a bod y myfyriwr wedi cytuno i gadw at amodau sy'n ymwneud ag, er enghraifft, cyflwr meddygol, triniaeth a goruchwyliaeth, gall fod yn briodol cytuno ar addasiadau rhesymol pellach a gosod amodau ynghylch ymddygiad.

### *Gwahardd o'r cwrs*

91. Mae gwaharddiad yn atal myfyriwr rhag parhau â'i gwrs am gyfnod penodol, a rhag graddio ar yr adeg a ddisgwylir. Mae gwaharddiad yn briodol ar gyfer pryderon diogelwch cleifion sy'n ddigon difrifol i fynnu gwaharddiad tra bod gwaith adfer yn cael ei wneud. Dylid ei osod lle nad yw'r amodau'n ymarferol, ac os mai'r ffordd orau o adfer diffygion neu wella o salwch, er enghraifft, yw y tu allan i amgylchedd y cwrs.

92. Mae enghreifftiau o ymddygiad a allai arwain at waharddiad yn cynnwys myfyrwyr sydd yn y broses o ddangos eu bod wedi gwella o gaethiwed.

93. Pan fydd myfyrwyr yn dychwelyd o waharddiad, dylid cynnal adolygiad priodol i alluogi ystyried cynnydd fel rhan o drafodaeth. Yn ystod y drafodaeth, byddai tystiolaeth o gamau unioni a gymerwyd gan y myfyriwr, sy'n benodol i'w achos, yn ystod cyfnod y gwaharddiad fel arfer yn cael ei ystyried. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, dystiolaeth bellach o fyfyrio a dysgu megis traethawd myfyriol neu waith gosod arall sy'n dangos dealltwriaeth o pam roedd angen y gwaharddiad a pham mae'r myfyriwr yn teimlo y gall ddychwelyd; gallai hefyd gynnwys adroddiadau meddygol a therapiwtig os yn briodol. Mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau, bydd angen adroddiad meddygol a therapiwtig bron bob amser cyn y gall myfyriwr ddychwelyd i ymarfer clinigol dan oruchwyliaeth. Os gwnaed cynnydd a bod modd sicrhau diogelwch cleifion, gellir cytuno ar amodau pellach am gyfnod gydag adolygiad priodol (gweler paragraffau 85-90).

94. Er nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gall gwaharddiad fod yn briodol pan fydd y ffactorau canlynol, neu rai ohonynt, yn amlwg:

- Mae’r achos o dorri gwerthoedd proffesiynol yn ddifrifol, ond nid yw'n anghydnaws â'r myfyriwr yn parhau ar y cwrs. Mae adferiad yn bosibl, ond mae gwaharddiad yn angenrheidiol am resymau diogelwch cleifion.
- Mae potensial i adfer tra bod y myfyriwr wedi'i wahardd.
- Efallai yr amharir ar grebwyll y myfyriwr a bod risg i ddiogelwch cleifion os caniateir i'r myfyriwr barhau ar y cwrs, hyd yn oed gydag amodau.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r myfyriwr yn gallu dilyn gwerthoedd proffesiynol ac arfer da.
- Mae'r panel yn fodlon bod gan y myfyriwr ddealltwriaeth ac nad yw'n debygol o ailadrodd yr ymddygiad.
- Bydd cymorth priodol i'r myfyriwr pan fydd yn dychwelyd i'r cwrs.

### *Diarddel o'r cwrs*

95. Gall y panel addasrwydd i ymarfer wneud argymhelliad i'r sefydliad addysgol osteopathig ddiarddel myfyriwr os ydynt o'r farn mai dyma'r unig ffordd o amddiffyn cleifion, cyd-fyfyrwyr, staff ac eraill. Dylai'r myfyriwr gael ei helpu i drosglwyddo i gwrs arall os yn briodol; Fodd bynnag, gall natur ymddygiad y myfyriwr olygu na ddylid ei dderbyn ar gyrsiau clinigol, nac ar unrhyw gwrs arall.

96. Diarddel yw'r gosb fwyaf ddifrifol a dylid ond ei gweithredu os ystyrir bod ymddygiad y myfyriwr yn anghydnaws â pharhau ar gwrs osteopathig neu ymarfer fel osteopath yn y pen draw. Er nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gall diarddel fod yn briodol pan fydd myfyriwr:

- wedi gwyro'n ddifrifol oddi wrth yr egwyddorion a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards* ac yn y canllawiau hyn
- wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n anghydnaws â bod yn osteopath
- wedi dangos diystyrwch di-hid o ddiogelwch cleifion
- wedi gwneud niwed difrifol i eraill, cleifion neu fel arall, naill ai'n fwriadol neu drwy anghymhwysedd, yn enwedig pan fo risg barhaus i gleifion
- wedi camddefnyddio ei safle o ymddiriedaeth
- wedi torri hawliau claf neu wedi camfanteisio ar berson agored i niwed
- wedi cyflawni troseddau o natur rywiol, gan gynnwys cymryd rhan mewn pornograffi plant
- wedi cyflawni troseddau yn ymwneud â thrais
- wedi bod yn anonest, gan gynnwys cuddio ei weithredoedd, yn enwedig pan fo'r anonestrwydd wedi bod yn barhaus
- wedi rhoi ei fuddiannau ei hun cyn buddiannau cleifion
- wedi dangos diffyg dealltwriaeth gyson o ddifrifoldeb ei weithredoedd neu'r canlyniadau
- heb ddangos unrhyw bosibilrwydd o adfer neu unioni.

***Terfynu ar sail iechyd***

97. Efallai y bydd angen terfynu ar sail iechyd lle na ellir gwneud addasiadau rhesymol a fyddai'n galluogi myfyriwr i fodloni neu barhau i fodloni'r safonau cymhwysedd. Fodd bynnag, dim ond ar ôl ymgynghori â'r myfyriwr ac unwaith y bydd yr holl addasiadau rhesymol wedi cael eu hystyried y byddai hyn yn digwydd.

# Cofrestru

98. Er mwyn cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor), mae'n ofynnol i unigolion:

   a. feddu ar gymhwyster cydnabyddedig – mae hyn yn dangos bod y deiliad yn gallu ymarfer yn unol â'r safonau cymhwysedd, ymddygiad a moesegol a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards*

   b. bodloni'r Cofrestrydd eu bod o gymeriad da (gweler paragraffau 103-106)

c. bodloni'r Cofrestrydd eu bod o iechyd da (gweler paragraffau 99-102)

d. talu'r ffi a nodir[23]

e. sicrhau bod yswiriant indemniad proffesiynol ar waith cyn dechrau ymarfer

f. ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus, yn dilyn eithriad cychwynnol am 10 mis ar gyfer graddedigion newydd sy'n cofrestru yn fuan ar ôl graddio.

99. Mae dyfarniad cymhwyster cydnabyddedig yn dangos bod y sefydliad addysgol osteopathig yn ystyried bod y graddedig yn gallu ymarfer yn unol â'r *Osteopathic Practice Standards.* Fodd bynnag, os darganfyddir gwybodaeth ychwanegol nad yw'n hysbys i'r sefydliad addysgol am iechyd neu gymeriad yr ymgeisydd rhwng dyfarnu'r cymhwyster cydnabyddedig a'r cais i gofrestru, bydd y Cofrestrydd yn ystyried y wybodaeth hon ar wahân yng ngoleuni'r safonau ymddygiad a chymhwysedd presennol a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards.*.

## *Gofyniad statudol iechyd da*

100. Mae *Deddf Osteopathiaid 1993* a'r rheolau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am gofrestriad ddarparu tystiolaeth o iechyd corfforol a meddyliol da. Yng nghyd-destun ymarfer osteopathig, mae hyn yn golygu bod yr osteopath yn gallu ymarfer yn unol â'r gofynion a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards*.

101. Mae'r cais i gofrestru yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr amlinellu unrhyw broblemau meddygol a allai eu hatal rhag ymarfer osteopathi.

102. Mae'r cais i gofrestru hefyd yn gofyn am eirda iechyd gan feddyg. Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu cael geirda gan feddyg, dylai ofyn am gyngor gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

103. Dyletswydd y Cofrestrydd yw sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu ymarfer yn unol â gofynion yr *Osteopathic Practice Standards*,, gan ystyried y ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol berthnasol. Gall y Cofrestrydd ofyn am unrhyw dystiolaeth ychwanegol i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd hon.

## *Gofyniad statudol cymeriad da*

104. Mae *Deddf Osteopathiaid 1993* a'r rheolau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am gofrestriad ddarparu tystiolaeth o 'gymeriad da'.

105. Mae'r rheolau'n ei gwneud yn ofynnol, fel rhan o'r cais i gofrestru, bod yr ymgeisydd yn datgan:

- unrhyw gyhuddiadau neu euogfarnau troseddol
- a yw wedi bod yn barti i unrhyw achos sifil
- a yw wedi cael ei dynnu oddi ar unrhyw Gofrestr broffesiynol neu reoleiddiol arall.

[23] Mae gofynion a-d wedi'u hamlinellu yn Adran 3 o *Ddeddf Osteopathiaid 1993*.

106. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymgeiswyr ddatgelu'r holl euogfarnau, rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol. Mae'n ofynnol i bob myfyriwr gael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel rhan o'i gais i gofrestru. Os bydd gwiriad DBS manylach yn datgelu rhybuddion neu euogfarnau nad ydynt wedi'u datgan, gofynnir i ymgeiswyr esbonio'n ysgrifenedig yr amgylchiadau a arweiniodd at y rhybuddion. Yna, bydd y wybodaeth hon yn cael ei hystyried ymhellach gan y Cofrestrydd cyn y gwneir penderfyniad ynghylch cofrestru.

107. Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu geirda cymeriad. Dylai hwn fod gan berson o statws proffesiynol sydd wedi eu hadnabod am o leiaf bedair blynedd.

108. Dyletswydd y Cofrestrydd yw sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu ymarfer yn unol â gofynion yr *Osteopathic Practice Standards*,, gan ystyried y ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol berthnasol. Gall y Cofrestrydd ofyn am unrhyw dystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â chymeriad da i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd hon.

**Logo'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol**

**Cyfeiriad**

**Dyddiad**